

## Adolygiad y Flwyddyn 2019-2020 y Panel Ymgynghorol

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu effeithiolrwydd a gwaith y Panel Ymgynghorol (y Panel) yn ystod 2019/2020. Yn yr un modd ag adolygiadau blynyddol o'r blynyddoedd a fu, mae'n ystyried y safbwyntiau a gafodd eu mynegi gan Aelodau'r Panel yn y ffurflenni arfarnu hunanasesu y buont yn eu llenwi yn ystod mis Chwefror 2020.

### 2. Rôl y Panel Ymgynghorol

- 2.1 Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw rhoi cefnogaeth a chyngor i'r Ombwdsmon wrth iddo ddarparu arweiniad i'r swyddfa a'i llywodraethu'n dda fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Mae profiadau amrywiol yr aelodau Panel yn cynnig persbectif allanol a gwrthrychol i'r Ombwdsmon (sy'n gorfforaeth yn unig), ynghyd â chyngor gyda'r gwaith o ddatblygu polisiau ac arferion, cyfeiriad strategol a chraffu ar berfformiad OGCC.
- 2.2 Cafodd Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol ei adolygu a'i gytuno arno gan y Panel ym mis Rhagfyr 2019 ac fe'u nodir yn Atodiad A.

### 3. Aelodaeth

- 3.1 Mae'r aelodaeth yn cynnwys yr Ombwdsmon a hyd at chwe aelod allanol annibynnol sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol o'r sectorau gwasanaeth cyhoeddus a gwahanol awdurdodaeth o safbwynt tiriogaethol a sectoraidd.
- 3.2 Mae'r Ombwdsmon yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel ac mae'r Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel.
- 3.3 Mae aelodaeth y Panel yn ystod y flwyddyn wedi bod fel a ganlyn:
- Mr Jonathan Morgan (cyn Aelod Cynulliad a chyn Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol)
  - Mrs Anne Jones (cyn Gomisiynydd Gwybodaeth Gynorthwyol)
  - Mr Jim Martin (cyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban)
  - Dr Tom Frawley CBE (cyn Comisiynydd Cwynion ac Ombwdsmon Cynulliad Gogledd Iwerddon)
  - Mr Trevor Coxon (cyn Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
  - Mr Ian Williams (cyn Brif Weithredwr Grŵp Hendre Cyf.).

- Mrs Jane Martin (cyn Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol dros Loegr ac aelod o'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus).
- 3.4 Yng ngoleuni argymhelliad y [Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2017-18](#) bod yr Ombwdsmon yn penodi aelod annibynnol i'w Banel Ymgynghorol nad yw'n eistedd ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC), penododd yr Ombwdsmon Mrs Jane Martin i'r Panel ym mis Medi 2019. Nid yw Mrs Martin yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg OGCC.
- 3.5 Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod digon o wahanu rhwng rolau'r Panel a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, rhoddodd Mr Jonathan Morgan (a gadeiriodd y Panel a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg) y gorau i'w rôl fel Cadeirydd ac aelod Annibynnol y Panel ym mis Mehefin 2019. Mae Mr Morgan yn parhau i fod yn Gadeirydd ac yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr OGCC.
- 3.6 Ar argymhelliad aelodau'r Panel Ymgynghorol, penododd yr Ombwdsmon Mrs Anne Jones fel Cadeirydd y Panel ym mis Gorffennaf 2019. Mae diwedd tymor Mrs Jones yn y swydd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, ar gyfer parhad, yn arbennig yng ngoleuni'r newidiadau i strwythur y Panel a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r heriau newydd sy'n deillio o'r pwerau newydd yn Neddf OGCC 2019, mae'r Ombwdsmon wedi ymestyn rôl Mrs Jones fel Aelod Annibynnol (o'r Panel ac ARAC) a Chadeirydd y Panel am gyfnod pellach o 12 mis tan fis Gorffennaf 2021.

#### 4. Cyfarfodydd

- 4.1 Mae Aelodau'r Panel wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad i'r rolau, gyda phob un ohonynt yn cadw at lefel ragorol o bresenoldeb yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Bu'n rhaid canslo'r cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer Mawrth 2020 oherwydd y Coronafeirws. Fodd bynnag, darparodd yr aelodau sylwadau ysgrifenedig ar y papurau a rhoddodd OGCC ymatebion ysgrifenedig i'r materion a godwyd.

Aelod y Panel	Adegau y buont yn bresennol	Cyfanswm Posibl
Jonathan Morgan (Cadeirydd hyd at fis Mehefin 2019)	1	1
Anne Jones (Cadeirydd o fis Gorffennaf 2019)	3	3
Tom Frawley	2	3
Jim Martin	3	3
Trevor Coxon	3	3
Ian Williams	3	3
Jane Martin (o fis Medi)	2	2

4.2 Mae'r Panel yn gosod rhaglen waith flynyddol i'w hun, ac mae Aelodau'r Panel wedi cael nifer o adroddiadau rheolaidd ym mhob cyfarfod, fel monitro cynnydd o gymharu â'r targedau sydd yn y Cynlluniau Strategol a Gweithredol; a'r Adroddiad Monitro Cwynion misol. Mae Rhaglenni Gwaith 2019-2020 a 2020-2021 wedi'u nodi yn Atodiadau B a C, yn y drefn honno.

4.3 Mae Aelodau'r Panel wedi ymwneud yn llawn â gwaith OGCC yn ystod cyfnod sydd wedi bod yn arbennig o heriol wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd sy'n llywodraethu gwaith OGCC, lefel y galw ar wasanaeth gwaith achos OGCC a'r pandemig Coronafeirws diweddar. Y materion allweddol a ystyriwyd gan y Panel oedd:

- Cynghori'r Ombwdsmon ynglŷn â strwythur newydd swyddfa OGCC yng ngoleuni'r swyddogaethau newydd ychwanegol yn Neddf 2019 newydd yr OGCC, ynghyd â'r angen i barhau i gyflawni penderfyniadau gwaith achos o ansawdd uchel i'r cyhoedd.
- Ar ôl sefydlu'r "Tîm Gwella" newydd a ffurfiwyd i gyflawni'r swyddogaethau newydd (gan gynnwys ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun a swyddogaeth yr Awdurdod Safonau Cwynion (ASC)), mae'r Panel wedi cael diweddariadau a sesiynau briffio ar gynnydd ynghylch meysydd gwaith allweddol. Cafodd cynigion eu herio'n ddehongladwy gan aelodau'r panel er mwyn ennill safbwynt allanol. Cafodd aelodau'r panel sesiynau briffio manwl ar gynigion cychwynnol ar gyfer ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun ehangach cyntaf OGCC, a'r dull a gymerwyd gan y tîm ASC wrth fonitro a chasglu data cwynion gan gyrrff cyhoeddus.
- Craffu ar Adroddiad Blynyddol drafft OGCC ynglŷn â'i berfformiad yn ystod 2018-2019.
- Cynghori'r Ombwdsmon ar amcangyfrifon ariannol drafft OGCC cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad i'w gymeradwyo ym mis Hydref. Yn dilyn hynny, cymeradwywyd yr Amcangyfrifon gan y Cynulliad a ni wnaed wneud unrhyw newid.
- Darparu cymorth adeiladol i'r Ombwdsmon ynglŷn â'i ymatebion i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad ar faterion llywodraethu.
- Ystyried Cynllun Cydraddoldeb Strategol OGCC yn fanwl; cafodd y drafft ei ystyried yn gynnar gan aelodau'r panel ac eto wedi hynny yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft. Cynigiodd y Panel sawl awgrym ar gyfer gwelliannau / diwygiadau cyn cwblhau'r Cynllun.
- Cynnal gwaith craffu manwl pob chwarter i berfformiad OGCC yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol, gan ganolbwyntio her a chraffu ar DPAAu gwaith achos mewn achosion lle nad yw perfformiad wedi cyflawni targedau perfformiad.

- Yn ystod mis Mawrth 2020 pan ddaeth goblygiadau pandemig y Coronafeirws i'r amlwg, trwy ddarparu cefnogaeth amhrisiadwy i'r Ombwdsmon a'i staff ar weithrediad y swyddfa, trefniadau gweithio o bell a'r goblygiadau tymor hwy.

4.4 Cynhaliwyd trafodaethau manwl rhwng y Panel ac aelodau Tîm Rheol OGCC, yn ogystal â staff o bob rhan o'r swyddfa, wrth ddelio a'r trafodaethau sydd wedi'u nodi uchod.

4.5 Mae digwyddiadau rheolaidd hefyd wedi'u cynnal â staff o wahanol dimau'r swyddfa fel bod cyfle i Aelodau'r Panel gwrdd ag aelodau newydd o staff a rhoi cyfle iddynt gael gwybod am waith y swyddfa gyfan.

4.6 Bu dau aelod o'r Panel, Mr Ian Williams a Mr Trevor Coxon, yn bresennol mewn digwyddiad ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ymwneud â'r pwerau yn y Ddeddf OGCC newydd, ac roedd cynlluniau ombwdsmon ledled y DU ac yn Ewrop; academyddion; Cadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad; a rhanddeiliaid OGCC yn bresennol.

4.7 Bu arbenigedd Mrs Anne Jones mewn llywodraethu gwybodaeth yn gynorthwyol iawn i'r Ombwdsmon wrth recriwtio a phenodi Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth newydd. Eisteddodd Mrs Anne Jones fel aelod allanol annibynnol ym mhanel recriwtio OGCC.

## **5. Adolygiad Blynyddol**

5.1 Fel rhan o'r adolygiad blynyddol hwn, mae aelodau'r Panel wedi asesu eu perfformiad unigol a pherfformiad y Panel yn ei gyfanrwydd. Maent wedi ystyried a ydynt yn cynnal ymwybyddiaeth a dealltwriaeth glir o awdurdodaeth a gweithrediadau'r OGCC er mwyn darparu cyngor a chefnogaeth effeithiol i'r Ombwdsmon ac i gynorthwyo'r Ombwdsmon ar drefniadau llywodraethu, nodau strategol, amcanion a thargedau. Yn ogystal, roedd yr adolygiad hefyd yn asesu a oeddent yn teimlo eu bod wedi'u cyfarparu i gynnig craffu priodol a her i'r Ombwdsmon a'i staff, ynghyd ag asesu'r perthnasoedd gwaith rhwng aelodau'r Panel, swyddfa'r Ombwdsmon a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys adnabod unrhyw anawsterau sy'n bodoli.

5.2 Hefyd, rhoddodd trafodaethau blynyddol un i un rhwng yr Ombwdsmon a Chadeirydd y Panel, a rhwng y Cadeirydd ac aelodau unigol y Panel, gyfle defnyddiol i gael adborth ar berfformiad aelodau unigol ac effeithiolrwydd y Panel yn ei gyfanrwydd.

5.3 Dywedodd yr aelodau fod cynwysfawredd y diweddariadau a'r adroddiadau sy'n cael eu darparu gan staff wedi helpu i lywio eu dealltwriaeth o weithrediadau. Mae arbenigedd personol rhai aelodau o'r Panel sydd wedi cyflawni rôl ombwdsmon yn amhrisiadwy ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan yr aelodau eraill. Yn ogystal, mae'r rhwydweithiau cyfredol o berthnasoedd sydd ar gael i rai aelodau yn eu galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau parhaus o fewn y sector.

- 5.4 Ystyriwyd bod cefndiroedd amrywiol aelodaeth gyfredol y Panel yn briodol er mwyn darparu'r arbenigedd cyfunol sy'n annibynnol er mwyn craffu ar ddarpariaeth gwasanaeth OGCC a phob mater llywodraethu. Mae'r Panel wedi'i sefydlu yn dda fel tîm ac mae'n gweithredu yn effeithiol ac yn annibynnol yn ei rôl.
- 5.5 Ynglŷn â pherthynas y Panel ag aelodau staff OGCC, roedd aelodau'r Panel yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn dda yn eu rôl a bod staff yn ymateb yn dda ac yn wrthrychol i gwestiynau'r Panel. Mae'r aelodau o'r farn eu bod wedi cynnal perthynas effeithiol a defnyddiol gyda'r Ombwdsmon a'i Dîm Rheoli. Mae staff bob amser yn gymwynasgar, yn gefnogol ac yn gwrtais. Cytunodd holl aelodau'r Panel fod tîm OGCC yn hawdd i weithio â nhw a'u bod yn trin mewnbwn y Panel yn barchus ac yn broffesiynol.
- 5.6 Mae'r aelodau Panel hynny sy'n mynychu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ymgysylltu'n rheolaidd ag archwilwyr mewnol ac allanol yr OGCC. Ymgysylltodd yr aelodau a fu'n bresennol yn y digwyddiad ym Mhrifysgol Aberystwyth â'r amrywiol randdeiliaid a oedd yn y digwyddiad hwnnw.
- 5.7 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod cadeirio ar wahân y Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi helpu i nodi priod rolau'r pwyllgorau yn glir.
- 5.8 O ran yr anawsterau, ac o ystyried y treigl amser rhwng y cyfarfodydd chwarterol, teimlid y gallai fod yn fuddiol ystyried sut y gellid sicrhau mwy o barhad rhwng cyfarfodydd. Hefyd, mae'n anodd i aelodau nad ydynt yn byw yng Nghymru fod yn ymwybodol o faterion cyfoes yng Nghymru sy'n llywio dealltwriaeth yr aelodau o'r cyd-destun y mae'r Ombwdsmon yn gweithredu ynddo. Nodwyd bod diwedd cyfnod yr Ombwdsmon yn y swydd yn dod i ben a'r ffaith bod telerau swydd rhai aelodau'r Panel Ymgynghorol hefyd yn dod i ben yn heriau a fydd yn wynebu'r OGCC a'r Panel yn y dyfodol. Yn ogystal, cwestiynwyd lefel y manylder a hyd y papurau a ddarparwyd i'r Panel i'w hystyried ym mhob cyfarfod.

## **6. Ystyriaethau yn y Dyfodol**

- 6.1 O ran anghenion yn y dyfodol, mae'r aelodau yn dymuno:
- cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch unrhyw ddatblygiadau newydd, yn enwedig mewn cysylltiad â'r swyddogaethau newydd sydd ar waith gan OGCC;
  - ystyried edrych yn fanylach ar farn defnyddwyr gwasanaeth OGCC;
  - cael diweddariadau rheolaidd ar ddatblygiadau mewn cynlluniau ombwdsmon eraill ledled y DU;
  - cael eu gwahodd i unrhyw ddigwyddiadau perthnasol sy'n cael eu cynnal er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o ddatblygiadau ac arferion gorau ar draws y sector;
  - trafod sut mae staff ledled y swyddfa yn gweld effeithiolrwydd a lefel craffu'r Panel; ac
  - ystyried lefel y manylder a chynnwys y wybodaeth sy'n cael ei darparu ym mhapurau cyfarfodydd y Panel.

- 6.2 Byddwn yn parhau i adolygu hyfforddiant aelodau Panel a chyfleoedd iddynt ymgysylltu â staff ledled y swyddfa, rhanddeiliaid OGCC ac mewn unrhyw ddigwyddiadau allanol perthnasol fel bod aelodau yn cael eu briffio'n llawn i barhau i gyflawni eu rolau yn effeithiol.
- 6.3 Bydd OGCC yn rhannu unrhyw sesiynau briffio staff neu unrhyw adroddiadau yn y wasg sy'n cael eu hystyried yn ddefnyddiol a pherthnasol gydag aelodau, pe baent yn dymuno eu derbyn, er mwyn darparu mwy o ddilyniant er gwybodaeth rhwng cyfarfodydd. Byddant hefyd yn cael copïau o'r diweddariad newyddion wythnosol.
- 6.4 Byddwn yn briffio'r aelodau ar ganlyniadau'r ymchwiliad bodddhad cwsmeriaid sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ar ran OGCC.
- 6.5 Yng ngoleuni goblygiadau'r Coronafeirws, byddwn yn cyd-weithio â'r aelodau i archwilio'r opsiynau ar gyfer cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau o bell yn y dyfodol.
- 6.6 Byddwn hefyd yn trafod cynlluniau gyda'r Panel i sicrhau bod ystod eang o arbenigedd yn parhau ar y Panel pan ddaw cyfnodau'r aelodau cyfredol yn y swyddi i ben.

## **7. Asesiad Cyffredinol gan Gadeirydd y Panel Ymgynghorol**

- 7.1 Cafwyd adborth cadarnhaol iawn yn dilyn yr ymarfer hunanasesu a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2020 gan bob aelod o'r Panel o ran eu rolau a'u hamcanion eu hunain, gan weithio ar y cyd â'r Ombwdsmon a'i staff.
- 7.2 Roedd yr aelodau o'r farn y bu'r Panel Ymgynghorol yn effeithiol yn 2019-20 yn ei rôl o gefnogi'r Ombwdsmon. Mae pob aelod o'r Panel yn teimlo eu bod wedi cyd-weithio'n dda, eu bod wedi gallu cyfrannu eu harbenigedd at drafodaethau, a'u bod yn cyfuno i ddarparu fforwm gwybodus a phrofiadol eithriadol oherwydd eu hystod o gefndiroedd proffesiynol
- 7.3 Ystyrir y bu cadeirio ar wahân y Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ers mis Gorffennaf 2019 o fudd, gan ddarparu mwy o annibyniaeth a gwrthrychedd i'r ddau fforwm. Fodd bynnag, mae aelodaeth wahanol y Panel a'r Pwyllgor wedi arwain ambell dro at rywffaint o ailadrodd a gorfod egluro materion er budd yr aelodau hynny nad ydynt yn eistedd ar y ddau.
- 7.4 Mae'r aelodau o'r farn eu bod yn parhau i ddarparu'r lefel gywir o her a chefnogaeth i'r Ombwdsmon a'i uwch reolwyr, yn ogystal â dod â mewnwlediadau gwerthfawr o'u cefndiroedd priodol. Mae'r flwyddyn wedi dod â heriau newydd wrth i Ddeddf OGCC 2019 gael ei chyflwyno, gan ystyried hynny ochr yn ochr â llwyth achosion swyddfa sy'n gofyn llawer eisoës. Heb os, bydd y flwyddyn i ddod yn dod â mwy o'r un peth, yn enwedig wrth weithredu'r Ddeddf ymhellach ac wrth i dymor yr Ombwdsmon presennol yn swydd ddod i ben. Hefyd heb os, bydd effaith y coronafeirws yn dod â'i set

ei hun o heriau unigryw. Wrth fwrw ymlaen, bydd y Panel yn ymdrechu i barhau â'i rôl o ychwanegu gwerth, darparu craffu digonol a chynnig cefnogaeth i'r Ombwdsmon a'i staff.

Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol

Atodiad B - Rhaglen Waith 2019-2020

Atodiad C - Rhaglen Waith 2020-2021

## Panel Ymgynghorol OGCC - Cylch Gorchwyl

### Statws y Panel Ymgynghorol

Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw cynnig cefnogaeth a chynghor i'r Ombwdsmon wrth ddarparu arweiniad i swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â'i llywodraethu'n dda. Mae'r Panel Ymgynghorol hefyd yn dod â phersbectif allanol i gynorthwyo wrth ddatblygu polisi ac arfer.

Mae'r Panel Ymgynghorol yn darparu cynghor a chefnogaeth benodol i'r Ombwdsmon ar:

- weledigaeth, gwerthoedd a dibenion;
- cyfeiriad a chynllunio strategol.

Corff ymgynghorol yn unig yw'r Panel Ymgynghorol i'r Ombwdsmon, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau ynddo'i hun.

### Rôl y Panel

Cynorthwyo'r Ombwdsmon wrth sefydlu:

- trefniadau llywodraethu, gan gynnwys Cylch Gorchwyl unrhyw is-bwyllgorau;
- cyfeiriad, nodau, amcanion a thargedau strategol OGCC;
- polisiâu busnes allweddol;
- strategaethau a pholisiâu cyflogaeth allweddol.

I archwilio a sicrhau:

- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Gweithredol Blynnyddol;
- dyrannu cyllideb lefel uchel;
- cyflwyno amcangyfrifon cyllideb i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.



I fonitro ac adolygu:

- perfformiad a darpariaeth weithredol;
- perfformiad ariannol;
- effeithiolrwydd strategaethau a pholisïau cyflogaeth;
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn enwedig mewn cysylltiad â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid;
- iechyd a diogelwch a pharhad busnes.

## **Aelodaeth**

Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

- Yr Ombwdsmon
- Hyd at chwe aelod allanol annibynnol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol a geisir gan yr Ombwdsmon. Gall un ohonynt fod o swyddfa ombwdsmon arall).

Bydd y Prif Gyngorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel; gall aelodau eraill y Tîm Rheoli fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel yn unol â phenderfyniad yr Ombwdsmon ond nid ydynt yn aelodau ffurfiol o Banel Ymgynghorol OGCC

Tair blynedd fydd cyfnod yr aelodau Annibynnol yn y swydd. Gall yr Ombwdsmon ymestyn cyfnod am flwyddyn ychwanegol.

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan un o'r aelodau allanol annibynnol. Bydd yr Ombwdsmon yn penodi un aelod annibynnol o'r Panel i swydd y Cadeirydd ar argymhelliad y Panel Ymgynghorol. Os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu yn erbyn dilyn argymhelliad y Panel Ymgynghorol, bydd penderfyniad yr Ombwdsmon yn cael ei gofnodi yng nghofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghorol.

## **Cyfarfodydd**

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal pedair gwaith y flwyddyn. Bydd cworwm yn isafswm o dri aelod a rhaid i'r Ombwdsmon fod yn un ohonynt (neu, fel eithriad, dirprwy a enwebir gan yr Ombwdsmon).

Os na fydd Cadeirydd y Panel Ymgynghorol yn gallu dod i gyfarfod, bydd aelod annibynnol arall yn cadeirio'r cyfarfod.

Yn dilyn cymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Panel, bydd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi yn unol â phenderfyniad yr Ombwdsmon.

## **Is-bwyllgor**

Mae'n agored i'r Panel Ymgynghorol ffurfio Pwyllgor Tâl ar sail ad hoc (h.y. pan fydd yr angen yn codi).

## Gofynion Gwybodaeth

Ar gyfer pob cyfarfod, bydd y Panel Ymgynghorol yn cael adroddiad ar gynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Cynllun Strategol / Gweithredol.

Fel a phan fo'n briodol, bydd y Panel hefyd yn cael y canlynol:

- rhaglen waith flynyddol
- adolygiadau ar gynnydd yn erbyn y Strategaeth Cyfathrebu ac Allgymorth
- cynigion ar gyfer unrhyw amcanion newydd 'yn ystod y flwyddyn' na ragwelwyd yn wreiddiol pan gafodd y Cynlluniau Strategol / Gweithredol eu datblygu
- cyflwyno'r amcangyfrifon drafft blynyddol i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- drafftiau o gynigion ar gyfer polisiau busnes / cyflogaeth allweddol newydd neu ddiwygiedig
- diweddariadau ar berthnasoedd gwaith â Chynulliad Cenedlaethol Cymru
- cynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau sefydliadol
- Adroddiad Blynyddol OGCC
- adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd y Panel Ymgynghorol ei hun.

\*\*\*\*\*

Wedi'i ddiwygio a'i gymeradwyo gan y Tîm Rheoli ar 12 Tachwedd 2019 a'r Panel Ymgynghorol ar 4 Rhagfyr 2019  
Adolygiad Nesaf: Tachwedd 2020

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Rhaglen Waith y Panel Ymgynghorol 2019-2020**

**Gorffennaf 2019**

Diweddariad ar Ddeddfwriaeth OGCC (os o gwbl)  
Adroddiad Blynyddol 2018-2019  
Cynllun Gwaith Cyfathrebu ac Allgymorth 2019-2020  
Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd  
Adroddiad Monitro Cwynion  
Materion Cychwynnol i'w Hystyried ar gyfer Cyflwyno Amcangyfrifon 2020-2021  
Cofrestr Buddiannau  
Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Panel Ymgynghorol  
Eitem Trafod

**Medi 2019**

Cyflwyno Amcangyfrifon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru  
Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd  
Adroddiad Monitro Cwynion  
Eitem Trafod

**Rhagfyr 2019**

Diweddariad ar Gyflwyno Amcangyfrifon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ar lafar)  
Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd  
Adroddiad Monitro Cwynion  
Cynllun Gwaith Cyfathrebu ac Allgymorth  
Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol (gan gynnwys Rhaglen Waith) - Adolygiad  
Eitem Trafod

**Mawrth 2020**

Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd  
Adroddiad Monitro Cwynion  
Adolygiad y Flwyddyn 2019-2020 y Panel Ymgynghorol  
Cynllun Corfforaethol  
Cynllun Gweithredol Drafft 2020-2021  
Eitem Trafod

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Rhaglen Waith y Panel Ymgynghorol 2020-2021

### **Mehfin 2020**

Adroddiad Blynyddol 2019-2020  
 Cynllun Gwaith Cyfathrebu ac Allgymorth 2020-2021  
 Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd  
 Adroddiad Monitro Cwynion  
 Materion Cychwynnol i'w Hystyried ar gyfer Cyflwyno Amcangyfrifon 2021-2022  
 Cofrestr Buddiannau  
 Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Panel Ymgynghorol  
 Eitem Trafod - Gweledigaeth, Gwerthoedd a Dibenion

### **Medi 2020**

Cyflwyno Amcangyfrifon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru  
 Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd  
 Adroddiad Monitro Cwynion  
 Eitem Trafod

### **Rhagfyr 2020**

Diweddariad ar Gyflwyno Amcangyfrifon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ar lafar)  
 Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd  
 Adroddiad Monitro Cwynion  
 Adroddiad Cyfathrebu ac Allgymorth  
 Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol (gan gynnwys Rhaglen Waith) - Adolygiad  
 Eitem Trafod

### **Mawrth 2021**

Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd  
 Adroddiad Monitro Cwynion  
 Adolygiad y Flwyddyn 2019-2020 - y Panel Ymgynghorol  
 Cynllun Corfforaethol  
 Cynllun Gweithredol Drafft 2021-2022  
 Eitem Trafod